

Y M A D R O D D I O N

H E N

Mr. Dod.

1. **N**ID all dim wneuthur niwed i ni ond Pechod; ac ni chaiff hwnnw wneuthur mo'r niwed i ni os medrwn ni edifarhau am dano. Ac ni all dim wneuthur i ni dda, ond Cariad a fflasor Duw yn Ghrist; a hynny a gawn ni, os nyni a'i ceisiwn mewn gwirionedd.

2. Nid oes nêb mewn cyflwr tosturus, ond yr hwn sydd ganddo galon galed, ac ni fedra weddio.

3. Cymaint ag a fydd o Bechod, cymaint a hynny a fydd o Drymder: Cymaint ag a fydd o Sancteiddrwydd, cymaint a hynny a fydd o Hapysrwydd.

A

4. Gwna

2 *Tmadroddion hen Mr. Dod.*

4. Gwna dy Bechod i ti yn Driftwch mwyaf; felly ni chaiff dy Driftwch býth wneuthur i ti niwed; Gwna Jesu Ghrist yn llawenydd mwyaf i ti; felly ni bydd arnat ti býth mor diffyg llawenydd.

5. Y Gŵr y mae Ganho Yspryd Gweddi, sydd ganho fwy nà phe bai yr holl fyd ar ei helw.

6. Dau beth a orchymynnodd ef i Gwpl o rai Priod, Gofalon ac ymrysonau: Am y cynaf, Bydded eich Gofalon, *Pa un a rynga fodd i Ddaw yn fwyaf*: Am eich Ymrysonau, bydded iddynt fôd, *Pa un a garo eu gilydd oreu*: Felly y bydd eich Gofalon a'ch Ymrysonau i ryw ddefnydd da; ac felly pob Gofalon ac Ymrysonau afreidiol a ddiflannant.

7. Os ydych chwi mewn ystâd Briodol, Gwybyddwch, a choeliwch, er y gallasech gael Gwraig neu wr gwell neu gyfoethoccach; etto byddwch siccr, na allasech chwi fyfth gael un cymmhwysach: Oblegid ei fôd wedi ei ordeinio felly gan Dduw yn y Nefoedd, cyn y gellid ei gyflawni ymma ar y ddaiar: Ac am hynny, er nad ydys yn cyflawni cariad i ti yn ôl; etto gwna di dy ddyledfwydd tuag at dy Briod, o ran usfudd-dod i Dduw; a thi a fyddi Siccr o gael cyffur yn y diwedd, er i Dduw dy drin di à Cheryddon dros amser.

8. Ni ddichon dim Cystuddiau, neu Drueni ddigwydd i ni, ond trwy Ordinhâd Duw; ac ni allant wneuthur niwed i ni, eithr rhaid yw iddynt

iddynt wneuthur da i ni, os ydym ni Elant i Dduw. Eithr *yn gyntaf*, Byddwch sicr na chymmysgoch ddim pechod a hwynt; canys hynny yn unic sy'n eu chwerwi hwynt: *yn ail*, Nac edrychwch ar y Wialen, ond ar yr hwn sy'n taro; canys hynny a bair ymddigio a deffygio hefyd.

9 Os wyt ti yn chwennychi bod yn sicr fôd dy bechodau wedi eu maddeu iti; Cais faddeu y Cammau, a'r Niweidion a wenler i tithau, *Mat. 6. 14, 15.* Ystria bedwar peth ir diben ymma:

1 Siampi Crist, yr hwn a faddeuodd iw elynion ac a weddiodd drostynt. 2 Gorchymmyn Cirst, *Pan weddiach, maddeuwrch os bydd gennych ddim yn erbyn neb.* 3. Addewid Crist, *Os maddewrch, maddeuir i chwithau.* 4. Bygythiad Crist, *Oni faddeuwrch, ni faddeuir i chwithau.*

10 Ym mhob Trueni a Chyfyngderau; goreu doethineb yw myned at y Cyfaill hwyrnw ar sydd neslas, ewyliysgaraf, ac applaf i gynnorthwyo; y cyfryw Ffrind yw Duw.

11 Mynych y dywedai ef; Nad oedd iddo achos yn y byd i gwyno rhag ei Groesau; gan nad oeddynt ond chwerw ffwrwyth ei bechodau ef:

12. *Lle mae Pechod yn drwm, mae croesau yn ysgafn; ac yn y gwrtbwryneb, lle mae croesau yn drymion, Pechodau ydynt ysgafn.*

13. Naill ai Gweddi a bair i ddyn beidio a phechu; neu y Pechod a bair i ddyn beidio a gweddio.

14. Pedwar peth a allwn ni ei ddysgu oddiwrth

wrth Blant: 1. Ni ofalant am ddilim yn afreidiol. 2. Hwy a gysgant yn ddisfalis. 3. Maent yn fodlen iw cyflwr. 4. Maent yn ostyngedig; Plentyn i Frenin a chwery a Phlentyn i Gerdotyn.

15. Nid oes un Cystudd cyn lleied, na suddem ni dano, oni bai fod Duw i'n cynnal; ac nid oes un Pechod mor fawr, na wnaem ni ef, oni bai fod Duw yn ein hattal.

16. Os rhoddir anfri i ni, neu ein difenwi, neu os gwneir a ni gam gan gyfaill neu elyn, se ddylei fod yn flinach gennym ni o ran y pechod a wneir yn erbyn Duw, nag o ran y sarnhaad neu 'r ammarch a wneir i ni ein hunain.

17. Mae gwr Duwiol yn debyg i Ddafad; pob man sydd well o'i blegid lle y delo. Gŵr annuwiol sydd debyg i Afr; pob man sydd yn waeth o'i blegid; gado y mae ef sawyr drewlyd ar ei bl.

18 Cystuddiau wedi eu sansteiddio ydynt oruchafiaethau, neu dderchafiadau ysprydol; ac y maent yn llawer gwell i Griflion, ná 'r holl Arian a'r Aur yn y byd; gan fod profiad ein ffydd yn werthfawroccach ná 'r Aur, i Pe. 1.7.

19. Gwna 'r Sabbath yn ddydd marchnad i'� Enaid. Na ollwng un awr i golli, ond bydd naill ai yn Gweddio, ai yn ymddiddan, ai yn Myfyrio. Na feddwl dy feddyliau dy hun; Caflod pob diwrnod ei ddyledswyddau; tro y Bregeth a glywech yn ddefnydd o Weddi; Addysg yn Ersyniad, Argyoeddiad yn Gyffes; Cyffur yn ddiolch-

ddiolchgarwch. Meddwl lawer am y Bregeth a glywaist, a gwna ryw ddefnydd o honi yr holl wythnos o hŷd.

20. Bob boreu trwy 'r wythnos rhag-fwrw;
1. Rhaid i mi farw. 2. Mi a allaf farm cyn y nôs 3.
I ba le yr â fy enaid, ai ir Nef a i uffern: Bob nôs gosyn ith enaid y Cwestiwnau hyn.

1. A ddarfu i mi ddwywaith heddyw ymddarost-wng ger bron Duv o'r neilltu? 2. Pa fodd y gwe-diisiais? Ai mewn ffydd a chariad? 3. Beth a fu fy Meddyliau arno y dydd heddyw? 4. Beth y fum i yn ei wneuthur yn fy lle a'm galwedigaeth? 5. Beth a fum i mewn Cwmpaini? A leferais i am bethau da? neu a wrandawais i, a rhoddi i gadw gyda Mair y pethau da a glywais? 6. Os adnewyddodd Duv Drugareddau gyda'r boreu, a fûm i ddiolchgar? 7. Os cyfrannodd y diwrnod i mi achos o drymder, a ymddigiais i? Ynteu a orweddais i yn y llwch ger bron Duv? Pan Darfyddo i chwi wneuthur fal byn; lle y buoch chwi yn ddeffygio!, cyfaddefiwb hynny yn achrif; a llai a fydd y gwaith i chwi i w wneuthur pan ddelo marwolaeth. Gwna fel byn uniau gyfrif â th Dduw bob nôs. Hyn a fu fy helyng feunyddiol i, ac a gaiff fod yn arfer i mi nes fy marw.

21. Yr hyn a ennilom ni drwy Weddi, ni a gawn ei fwynhau mewn diddanwch.

22. Mae Sicerwydd dau-ddyblyg. 1. Siccerwydd Haul-gan. 2. A Lloergan. Y cyntaf yw y llawn siccerwydd hwnnw yn Heb. 10. 22. Y Lloergan yw hwnnw o'r Gair, yr hwn da y gwasawm fod yn dal arno, i Thes. 1. 5. 2 Pet. 1. 19. Y cyntaf ni roddir ond i ychydig, na hynny ond yn anfynych; a hynny naill ai ar ryw ddiyledswydd fawr iw chyflowni; neu ryw "gyflwr newydd o fywyd i syned iddo; neu ar ryw

6 *Tmadroddion hen Mr. Dod.*

fowrión ddiodefiau i syned danyst; am yr hwn y dywaid un, yr oriau (*eu r'awrau*) y daw, nid y dlynt ond anfynych, a byrr y mae yn aros. Yr ail yw yr hwn y rhaid i ni ymddiried iddo, Rhoi gogglud ar siccer Air Duw, diwyf fydd o *Ymlyniad*, pan ydym ni heb y llall, sef yspryd o lawn Sicerwydd.

23. Am gysur pobl Duw, efe a d'aliodd fulw allan o'r 129 *Psalm*, Er bod yr annuwiol yn Arddwyr ar y *Cyfiau*, ac aredig o honynyt yn ddwfn. a gwneuthur cwysau hirion, a hefyd aredig eu calonnau hwynt allan, pes gallent; eto yr Arglywydd cyfiau, yr hwn sy yn eistedd yn y Nefoedd, sy yn chwerthin am *eu* pennau, ac yn torri eu Tidau, a'u rhaffau; ac yna nid allant aredig dim ychwaneg.

24. Yn achos Erlidiadau a Dioddefiau eraill, fe ddylei pobl Dduw ystyried yn ddisrifol y pedwar peth hyn: 1. Duw sydd yn mynni iddynt fod, ac yn *eu* hanfon; Weithian Ewillys Duw sydd berffaith Reol Cyfiaunder; a'r hyn y mae Duw yn *ei* wneuthur, a wnaeth-pwyd cystal, nas gallai mor bod wedi *ei* wneuthur yn well. 2. Mae yn rhaid wrthynt, oni bai hynny ni chaem ni mo honynyt. 3. Eu rhifedi, eu mesur, a'u parhàd a benderfynnwyd gan Dduw; nid ydynt ond tros ennyd sechan, nac yn parhau ond ychydig ddyddiau, *Dat.* 2. 10. nid ydynt rŷ drymion, rŷ aml, neu rŷ-hir, fel y mynnei 'r Cythrel iddynt fôd; na rŷ-anaml, rhy-fyrion, neu rŷ-ysgasñ, fel y mynnei ein naturiaeth lygredig iddynt fôd. 4. El diwedd sydd bwys o ogoniant, a'r Goron a'u canlyn sydd dragwyddol, 2 Cor. 4. 17.

25. Tri pheth a bair i ddŷn *ei* gyfrif ei hun yn ddedwydd ymma ar y Ddaear. 1. *Cael ystâd*
ddâ:

dda: 2. Ei chael hi mewn lle da: 3. With gymmydogion da. Yn awr y tri hyn y mae y rhai sydd yn meirw yn yr Arglwydd, yn eu mwynhau mewn modd rhagorol.

1. Eu Nefol Etifeddiaeth sydd fawr. *Ni welodd* Rygad, *ni chlywodd clust y cyffelyb*, i Cor. 2. 9. 2. Mae hi mewn lle da, 2 Cor. 5. 1. Y Nefoedd, yr hwn sydd Dy a wnaethpwyd i ddynt hwy, ac a wnaethpwyd gan Dduw; ac am hynny mae'n rhaid iddo fod yn dda. 3. Yn agos at Gymmydogion da: Duw, Crist, yr Yspryd, Angelion, a Seintiau. Yr oedd gan Adda Etifeddiaeth dda, ac mewn lle da; ond yr oedd ganddo Gymmydog drwg, sef y Cythrael, yr hwn ai blinodd ef, ac a anafodd y ewbl. *Ond nid oes dim Gymmydogion drwg yn y Nefoedd.*

26. Nid yw Dioddefiadau pobl Dduw yn rhwystro eu Gweddiau hwynt. *Elias* oedd ddyn yn rhaid iddo ddioddef fel ninnau, ac efe a weddiodd ac a wrandawyd, Jac. 5. 17.

27. Tri pheth sydd yn cyd-ymganlyn i wneud thur i fynu y pechod yn erbyn yr Yspryd glan. 1. *Goleuni yn y meddwl.* 2. *Malis yn y galon.* 3. *Yr anheimlad o'r pechod.* *Y neb sy yn osni ddarfod iddo ei bechu ef, ni pbechudd ef mo hono trioed.*

28. Y rhefwm pa ham na weithir ar lawer sydd tan nerthol foddion Grâs, lle y mae llawer roedd ar sy yn byw o bell, ac yn dywâd yn anfynych tan Bregethiad nerthol, yn cael gweithio arnynt drwy hynny, efe a arferei o i roddi drwy'r gyffelybiaeth yma: Megis mewn Tref farchnad, nid oes cymaint matter gan bobl y Dref am bethau sy yn y farchnad, a chan y rhai sydd yn byw yn y wlad; maent hwy yn dyfod i brynu, a rhaid yw iddynt wneuthu'n felly;

felly ; a hwy a fynnant gael y peth sydd arnynt ei eisiau, beth bynnag a dalont am dano ; lle mae y rhai sy yn byw yn y Dref, yn tybied y gallant brynu, pa amser bynnag, y gwelont yn dda, ac felly yr esceulusrant brynu yn yr amser presennol ; ac o'r diwedd, maent yn sych iawn yn cael eu siomiau e'n twyllo.

29. I'n perswadio ni i widdio a rhoi sen am sen, efe a ddywedai ; Os Ci a gyfarth ddafad, ni chyfarth y ddafad mo'r Ci.

30. Pedwar O Resymmau a roddai fo yn erbyn Gofalon anghymhedrol am bethau daiaurol, fel na ddianrhwyddeddem Duw, na'i wadu. 1. Maent yn afreidiol. 2. Maent yn anifeilaidd. 3. Maent yn anfuddiol. 4. Maent yn arfer o ddilyn y Cenhedloedd.

1. Yn afreidiol : Pam y rhaid i ni ofalu, a Duw hefyd ? *Gwyr ein Tad nefol fod arnom ei-sienu y perthau hyn, a pheri y mae ef i ni, na ofalom am ddim, ond bwrw ein gofal arno ef, yr hwn sy ym gofalu drosom ni.* Mat. 6. 32. 1 Pet.

5. 7. 2. Yn anifeilaidd, ie a gwaeth nag anifeilaidd : *Edrycwrwch ar adar y nefoedd, a'r cygrain, y mae efe yn eu porthi hwynt, er nad ydynt yn llafurio.* Mat. 6. 26. 3. Maent yn Anfuddiol ac yn ddilès. *Pwy o honobr gan ofalu a ddiclon chwanegu un cufydd at ei faintioli, neu un geiniog at ei olud.* Mat. 6. 27. 4. Arfer y Cenhedloedd yw, *Yr holl bethau byn y mae y Cenhedloedd yn eu ceisio.* Mat. 6. 32.

31. Mae bagad yn y byd yn cymmered yr enw o fod yn Sanct ar dyb da eraill am danynt ; ac yn marchanatta yn nyledswyddau Crefydd, ar y goel a ennillasant oddiwrth Opiniwnau da rhai eraill am danynt hwy, a'u proffesi : *Credu y maent eu bod eu hunain yn Gristianogion, oblegid bod eraill yn gobeithio eu bod hwy felly ;*

hilly; ac hwy a negescaunt à zél gwresog, mewn dyledswyddau sy yn sefyll oddiallan, i gynnal eu Henw da; eithr ni edrychaint un arfer am y Stocc o gadarn Râs oddifewn; a hyn sydd yn anafu llawer.

32. Fel yr ydym ni yn darllen am fara beu-nyddiol, felly hefyd am *Grues feunyddiol*, *Luc 9.*

23. yr hon y perir i ni ei chodi, nid ei gwneuthur. Nid rhaid i ni mor gwneuthur Croesau i ni ein hunain (fal yr ydym ni yn rhy barod i wneuthur) ond gadawn i Dduw eu gwneuthur hwynt i ni: Croesau a wneir yn y Nefoedd, sydd fwyaf cymmwys i gesnau'r Sainct; ac ni wasanaetha i ni moi rhoddi hwy i lawr, nes iddynt hwy a ninnau orwedd i lawr ynghyd.

33. Ymadrodd hynodol oedd hwnnw o'r ei-ddo Gwr sanctaidd, *Diffoddwrwch usfern, a llosgwch y Nefoedd, etto myfi a garaf, ac a ofnaf fy Nw.*

34. Nid crochlesain yn erbyn y Cythrael, nac ymadroddi yn erbyn Pechod mewn Gweddli, neu Ymddiddanion; ond ymladd à'r Cythrael, a marweiddio ein Trachwantau, yw'r hyn y mae Duw yn bennaf yn edrych arno.

35. Y mae'r Proffesiwr gwâg yn Siommi neu'n twyllo daw ar unwaith; 1. *Byd, yr hwn wrth weled dail, sy yn disgrif fflwythau, ond nid yw yn cael dim.* 2. *Ei hanan, yr hwn sy yn tybied cyrraedd y Nefoedd, ond sy yn dyfod yn fyrr o honi.*

36. Yr unig ffordd i Enaid cyfluddiol, ni fedro ymafaelio neu ymaflyd mewn Cyffurau o'r blaen, oblegid Gwrthdroeadau neu bechodaau ar ôl, ac felly sy yn ammeu ei holl sicrwydd o'r blaen, vw, *Adnewyddu ei Ediseirwch, fel pe buasei ef heb gredu erioed.*

37. Hawdd gan rai seddwl pe baent yn y cysryw Deulu, dan y cysryw Weinidog, allan o'r cysryw

cyfryw Demptasiwnau, nad ymmyrrau'r Cythrael â hwynt, fel y mae. Eithr y cyfryw rai a ddylaent wybod. Mai cyhyd ag y byddo ei hen Gysaill ef, sef y cnawd yn syw oddi fewn, y bydd ynteu yn curo wrth y drws oddi-allan.

38. Yr hadau a hauwyd yn Naturiaeth Diafol a'r Sainct ydynt cyn ddyfned, na ddiwreiddir hwy byth, hyd oni pheidio y Cythrael a bod yn Gythrael, a Phechod a bod yn Bechod, a Sainct a bod yn Sainct.

39. Melinydd Diafol yw'r pechadur, yn malu yn waftadol; ar Diafol sydd yn waftad yn llenwi yr Hoppran, neu'r pin fel na safon felin.

40. Mae rhai pechodau na feidr dyn anwybodus moi Gwneuthur; eithr y mae llawer ychwaneg na feidr dyn anwybodus ond eu gwneuthur.

41. Y mae pump o rwymau, â phâ rai y rhwymodd Duw'r Nefoedd ef ei hun i fod yn Gard neu'n Geidwad i gadw einioes y Sainct, yn ebyn Gallu y Tywllwch.

1. *Ei berbynas iddynt megis Tâd.*
2. *Ei Gariad ef iddynt, o ran ei bod hwynt yn Esgoredigaeth ei Gyngor Frwyddol ef, megis cyfrannogion ôi Lôn ef ei hun.*
3. *Pridiwerth Gwaed ei fab, a'i Gyfam-mod â hwynt.*
4. *Eu Goglud arno ef, a'u Disgwyliad oddiwrtho, yn eu holl gyfngderau: yn awr Disgwyliad a gobaith y trutiniaid ni chollir bŷth, Psalm 9. 18.*
5. *Gwaith presennol Crist yn y Nefoedd, yw edrych am fod pob petb yn cael ei ddwyn rhagllo yn dêg rhwng Duw a'i Bobl.*

42. Bara haidd gyd a'r Efengyl sydd ym-borth dà,

Byrr yw oes Dyn.

FEl Gwenol *Job* mae 'n hoes yn llithro,
Fel Rhosyn *Dafydd* mae hi 'n gwywo,
 Fel gyrra *Paul* y mae 'n diweddi,
 Fel Bwmbwl *Jago* mae 'n diffoddi.

Fel canwyll gwyr mae 'n hoes yn treulio.
 Fel llong dan hwyl mae 'n myned heibio,
 Fel post dan sawd mae 'n pedwar carnau,
 Fel cyscod cwmwl mae 'n diffiannu.

Gwann yw 'n tai, a chryf yw'n Gelyn,
 Byrr yw'n Terem, suwr yw'n terfyn,
 Ancertennol yw ddyfodiad,
 Byddwn barod yn ei wiliad.

Myfyrdod ar Fywyd ac Angen.

Pa gynta bytho marw Cristion,
 Cynta derbyn hwnnw ei Goron :
 Pa hwya bytho Christion byw,
 Hwya bydd heb weled Duw.

Pa hwya byddo dyn heb farw,
 Mwya fydd gofynnion hwnnw :
 Pa gynta tynner dyn o'i wegi,
 Lleia gyd y fydd ei gyfri.

Christ

Christ yw Pren y Bywyd.

Dewch bôb rhai at Bren y bywyd,
Dewch at Ghrift ein prynwr hyfryd;
Mwynhewch y ffrwyth, a chredwch yn tho.
Chwi gewch râs a bywyd gantho.

Dymma 'r Pren y dynn y ddingcod,
A'r newyn du, a'r poen, a'r pechod,
A'r melldith Duw, a'r loes wenwynig,
Y ddaeth o fwyta 'r pren gwarddedig.

O! bwyttewch o'r pren yn rhâd,
O'r nef y daeth, oddiwrth y Tâd,
I'n gyrru 'n Jach, i gadw 'n bywyd,
I dorri 'n chwant, i roi i'n Jechyd.

Mae ffrwyth e'n ber, mae ddail yn Jachus,
Mae flas yn well nà'r Manna melus :
Ni all newyn byth, nac Angau,
Drwblo'r dyn y fwyty ei ffrwythau.

Christ yw'r pren, Oh! dewch bawb atto,
Y ffrwyth yw'r bywyd y sydd ynddo ;
Y dail yw'r gair, a'i gyngor Jachus,
Sy'n bywhau yr enaid clwyfus.

Dewch bôb rhai, sy'n flin eu cyflwr,
Dewch at Ghrift, ein gwir Jachawdwr,
Dewch i dderbyn grâs a Jechyd,
Cymorth, cynffordd, bawb o'r holl-fyd.

Dewn at y Pren, bwyttawn ei ffrwythau,
Crynhawn ei ddail, rhawn wrth ein clwyfau :
Fe'n gwir Jacha, se dyrr ein newyn,
Fe bair i'n fyw, dros fyth heb derfyn.

T E R F Y N.

5

DATTODIAD

Y Qwestiwn Mawr,

*Beth sydd raid i ni ei wneuthur fel
y byddom GADWEDIG.*

ATHRAWIAETHAU

I


Fuchedd Sanctaidd.

Act. 16. 30. *O feistred, beth sydd raid i ni ei
wneuthur, fel y byddwyf Gadwedig?*

Heb. 12. 14. *Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb
weled yr Arglwydd.*

O waith y Difinydd Parchedig
Mr. *Richard Baxter.*

Printiedig yn Llundain gan Tho. Whitledge
a M. Ewingbar, 1693.



Dastodiad y Question Pawr,
 Pa fodd i fod yn Gadwedig
 yn S I C C R.

Athrawiaethau i Fuchedd Sanctaidd.

- I. Anghenrhaid, Rheswm, a moddion Sancteiddrwydd.
- II. Rhanau ac Ymarfer Buchedd Sanctaidd.

Er Cyfarwyddiad Personawl, ac addysg Teuluaid. Ynghyd a dau Catechismus Byrrion, a Gweleriau.

Darlennydd,

DYnion anwybodus nis gallant gofio hir a llawer eiriau, na deall dull ar ymadrodd byr ac ychydig eiriau. Gan hynny ammhobysbl ydyw Scrifennu

A. 2

Catechism

Catechism yr hen nis bydd yn anghyfatterbol naill a'i i ddeall neu i goffaduriaeth y cyfryw; Rhaid i mi gan hynny adymuno ar y disgardwr i wneuthur i fymu y diffyg anocbeladwy hwn. Trwy agor meddwl: (yn enwedigol y Catechis's) i'r plant a'r Gweision, gweidi darfod iddynt ddysgu a dywedd y geiriau. Darllenwch yr hysborddiadau yn synch iddynt, a Clymelwch y cwl fel yr elocb ym-mlaen ar eu serchiadau hwynt; canys geiriau noeth yn unic heb ffoddwr Presennol, allant fod yn golledig i gyd oll.

Dattodiad

Dattodiad y

QWESTIWN MAWR,

*Beth sydd raid i ni ei wneuthur
fel y byddom GADWEDIG.*

I. Anghenrhaid, Rheswm, a Moddion Sansteiddrwydd.

1. *I gadw i fynu fwriadau Y dychweledig.*

2. *I ddy'gu y rhai hynny mewn Teuluedd sydd a
nynt eu diffyg.*

ER bwd jechydwriaeth eneidiau yn fatter o bwys anrhaethadwy (a) etto (syr Ar glwydd a gymmoro drugaredd arnynt;) Pa liaws sydd yn tybied nad yw hynny yn haddu eu holiad difrifol hwynt. Neu ar ddar-

(a) *Mar. 8. 36. Mat. 6. 33. Job 21. 14. ac
32. 17. Psal. 1. 2, 3. Psal. 14. 1. ac 12. 1.*

Hen o honynt lyfr da un awr yn yr wythnos? Er mwyn y pechaduriaid diofal, diog hyn, mi a leferais yma lawer mewn lle bychan, fel na bo iddynt wrthod darllen, ac ystyried gwers mor fer, oddi i thir eu bwl yo tybied na thâl eu heneidiau hwynt ddim. Pechadur, megis ac yr atebi hynny ar fyr amser ger bron Duw, na naccâ i Dduw, i ti dy hun, ac i minneu, ar i ti ddwys ystyried, ac ymaiser yn ffyddlon yr ychydig hyfforddiadau hyn.

1. *Deckreu gartref ac adnefydd dy bun:* Ystria beth ydyw bwl yn ddyn (b) fo'th wnaethpwyd yn greadur boneddigeidaiaach nâ'r anifeiliaid. Hwy a'th wasanacthant di, ac a reolir genniti, ac mae marwolaeth ya diweddu eu holl boen hwynt a'i hyfrydwch. Ond mae genniti Reswm i'th reoli dy hun a nhwythau; i g/dnabod dy Dduw, i ragweled dy ddiwedd, i wybod dy ffordd, ac i wneuthur dy ddyledswydd. Dy Reswm a'th ewyllys rhwydd, a gallu i gyflawni, ydynt ran o ddelw Duw ar dy natur di; feily y mae dy Arglwyddiaeth di ar yr anifeiliaid, megis (dano ef) tydi yw eu perchenrog, eu Rheolwr, a'i diweddu. Ond dy ddoethineb sanctaidd di, a'th ddaioni, a'th allu ydyw rhan bennaf o'i ddelw ef, ar y rhai y mae dy ddedwyddwch di yn sefyll. Mae genniti enaid yr hon nis gellir moi bodloni â gwybodaeth, hyd oni Chyrraedd dy wybodaeth di at Dduw ei hun (c) nis gall, neb arall ei threfnu, nai iawn reoli hi (neu gyfeillach y býd) yn ol ei natur, heb edrych ar ei Awdurdod uchaf ef, ac heb obeithion o lawenydd, ac ofnau o drueni ar ôl hyn

(b) *Psal. 8.4,5,6. Gen. 1.26, 27. Gen. 9.6. Col. 3.10.* (c) *Joan 17.3. 1 Joan 4.6,7. Jér. 9.24.*

hyn (d): Nis gall fôl yn happus mewn dim, ond yn gweled, a charu, ac ymhyfrydu yn y Duw hwn megis ac y mae yn ddatcuddiedig yn y byd arall (e). Ac ydyw'r natur hon gweisi ei rhodli i ti yn ofer? Os cymmhwywyd natur pob peth at ei ddefnydd a'i ddiwedd, (f) yna rhaid bôl felly gyda'th eiddo ti.

2. Yna trwy dy *Adnabod y bun* rhaid i ti wybod fod Duw, Heb. 11. 6. Ac mai efe yw dy wneuthurwr, Psal. 100. 3. Ac aneirif ym mhôb perffeithrwydd, ac mai efe yw dy seddiannudd, a'th Reolwr, a'th cidedwyddwch, neu'th ddiben pennaf. Mae'r dyn yn (g) ynsyd nad yw yn gweled, fôl gan y cyfryw greaduriaid achos, neu wneuthurwr. A bod holl Allu, a doethineb, a daioni'r byd, yn dy fod oddiwrth Allu, a doethineb, a daioni, sydd fwy nà hwnnw o'r 1.8l fyd. A phwy yw ein Meddian-nudd ni, ond yr hwn a'n gwnaeth ni? A phwy yw ein Rheolwr uchaf ni, ond ein perchenog? Ei aneirif Allu, doethineb a daioni sydd yn ei wneuthur ef yn unic yn gymmwys i hyunny. Ac os efe yw ein Rheolwr ni, rhaid yw bôl ganddo gyfreithiau ynglyd â gobrwyd i'r da, a chospedigaethau i'r drwg, a rhaid iiddo farnu a chyflawni yn eu hôl hwynt. Ac os efe yw ein pennaf wneuthurwr daioni, a bôl y-cwbl sydd gennym oldiwrtho ef, a'n hôl obaith a'n dedwyddwch ni sydd ynddo ef. Nid all

(d) Luke 12. 4, 5. (e) Psal. 16. 5, hyd 11. (f) Isa. 45. 18. (g) Psal. 14. 1. Gen. 1. 1. Rev. 1. 8. Rhuf. 1. 19, 20. Psal. 46. 10. Psal. 9. 10. Psal. 100. ac Psal. 23. Psal. 19. 1, 2, 3. Psal. 47. 7. Ezek. 18. 4. Gen. 18. 25. Mal. 1. 6.

all dim fôd eglurach na bod Natur dŷn yn profi y dylai efe mewn gobaith o ddedwyddwch i lwyf roddi ei hunan i fynu i ewyllys a threfniad y Duw hwn, ac y dylai ef yn hollawl usyddhau iddo (b) ac y dylai ef ei garu, a'i wasanaethu ef a'i holl allu. Yn gymaint a bod yn ammhoffibl caru, usyddhau, a rhyngu bodd y Duw hwnnw yn ormod, yr hwn sydd fel hyn ein achos, ein diwedd, ein cwbl.

3. Trwy dy *adnabod dy hyn a Duw* fel hyn. Mae yn hawdd gwybod beth ydyw *prif sansteiddrwydd a Duwioldeb*. Sef y rhoddiad hon i fynu o'r Enaid a'r galon, i Dduw yn bur ac yn hollawl, megis yr aneirif Allu, Doethineb, a Daion, megis ein Creawdwr, ein Perchennog, Llywodraethwr, a'n dedwyddwch neu ein diwedd. Gan ymddarostwng 'yn hollawl iw drefniad ef, usyddhau iw gyfreithiau ef, mewn gobaith o'r Gobrwyon a addawodd efe, ac ofn y cospedigaethau a fygythiodd efe: A charu ac ymhyfrydu yn ddo ef ei hun, a'i holl eglurhâdau ef yn y byd; ac ewyllysio a cheisio didrancolwg a mwyniant o hono ef yngogoniant nefol, ac egluro y serchiadau hyn beunydd mewn gweddi, diolchgarwch, a mawl. *Hwn yw defnydd dy holl Alluoedd di, diben a gorchwyl dy fywyd ti, iecbyd a dedwyddwcb dy enaid ti: Hon ydyw y sansteiddrwydd neu'r Dduwioldeb y mae Duw yn galw yn gymaint am dani.*

4. A

(h) *Math. 22. 33. Jer. 5. 22, 1. 2 Cor. 5. 8, 9. Titus 2. 14. 2 Cor. 8. 5. & 6. 16, 17, 18. 1 Pet. 2. 9. Psal. 37. 4. Psal. 40. 8. Col. 3. 1, 2. Mat. 6. 20, 21. 2 Cor. 4. 17, 18.*

4. A thrwy hyn mae yn hawdd gwybod, beth ydyw cyflwr (k) o bechod, ac annuwioldeb, sef eisiau yr holl sancteiddrwydd hon, a gesodiad hanner cnawdol yn lle Duw. Pan ydyw dynion yn falch fawrion, ac yn ddoethion, ac yn dda yn eu golwg eu hunain; ac a synnent drefnu eu hunain a'i holl achosion, ac a synnent reoli eu hunain, a rhyngu bodd iddynt eu hunain, ya ôl chwant cnawdol, a naturaeth; am hynny caru y maent swyaf hyfrydwch, ac elw, ac anrhayed y býd, megis bwyd i fodloni dymuniau'r cnawd; a Duw ni chaiff ei garu, ei usyddhau, neu ryngu ei fodd ddim pellach nag y rhydd cariad hyfrydwch cnawdol gennad, ac ni chaiff ddim, ond yr hyn all y cnawd ei hepcor. Cyflwr drygionus, cnawdol, annuwiol yw hwn, er ei fôl yn torri allan mewn amryw ffyrdd o bechu.

5. Wrth hyn, profiad ei hun all ddywedyd i chwi fod y rhan swyaf o ddynion (ie pawb (l), hyd oni adnewydd a grâs hwynt) yn y cyflwr annuwiol truenus hwn: (Er bod yr scrythur yn unig yn dywedyd i ni pa fodd y daeth hyn) er nad yw pawb yn odineb wyr, yn feddwon; yn gribdeilwyr, neu erlidwyr, nac yn byw yn yr un ffordd o bechu. Etto bo! heb hunan ymwadiad, yn falch, ac yn anianol, yn caru pethau daiarol, yn anwybodus, ac yn annuwiol, y pecho au hyn yn eglur aethant yn llygredig aeth e ffreddinol natur dlyn; megis ac y troir eu calonau hwynt at y býd oddiwrth Duw.

Ac

(k) *Plat.* 8. 1. *H.* 2. 1. *Ruf.* 3. 12,
13. *Ioan.* 3. 24. 5. 6. 6. 1. *Thos.* 2. 15. 16. *Ruf.*
13. 13. 14. *Ruf.* 6. 6. 1. 5. 8. 23 ac 14. 26,
33. (l) *Ruf.* 3. *Plat.* 14. *Ruf.* 2. 2, 3. *Ruf.*
5. 12, 17, 19. *Ioan.* 3. 6.

Ac a lenwir ag annuwioldeb, astendid, ac anghyflawnder, a'i rheswn hwynt nid yw ond gwâs iw synhwyrau, a'i meddwl neu eu synniad, ai cariad, ai bywyd, sydd gnawdol; a'r synniad cnaudol hwn sydd elyniaeth yn erbyn sancteiddrwydd Duw, ac nis gall fod yn ddarostyngedic iw ddeddf ef : (m) y llygredigaeth hon treftadol ydyw, ac aeth megis yn natur i ni, yn gymaint ai fod yn glefid marwol ein naturaethau ni i gyd. Ac hawdd ydyw gwybod y bydd rhaid i'r cyfryw natur astan, annuwiol fod yn ffiaidd gan Dduw ac (n) yn anghymwys i fwyniant happus ei gariad ef, naill a'i yma, neu yn y bywyd a ddaw canys pa gymundeb fydd rhwng goleuni a thywyllwch?

6. Yna oddiyma hawdd ydyw gweled, pa râs sydd anghenrheidiol i iechydwriaeth dŷn. Rhaid i'r creadur atcas hwn, y gwrthryfelwr aniolchgar hwn, yr hwn sydd wedi troi ymaith oddiwrth Dduw, ac wedi ymosod yn ei erbyn ef, ac wedi ei halogi â'r holl fudreddi hwn o bechod, gael ei (o)adnewyddu a'i gymmodi, ei sancteiddio, a chael Maddeuant, os efe a syn fyth fod yn Gadwedig. Caru Duw, a chael eu garu gando ef, ac ymhyfrydu yn hynny, yngolwg ei ogoniant ef, ydyw Nefoedd a happusrwyd eneidiau; a hyn oll fydd withwynebol i gyflwr astan, disanctaidd. Hyd oni chaffo dynion galonnau newydd a sanctaidd, nis gallant na gweled Duw, nai garu ef, nac ymhyfrydu ynddo, nai gymmeryd ef am eu bodlonrwydd pennaf; canys gan y cnawd a'r bŷd y mae eu hyfrydwch a'u cariad. Ac hyd oni fawdeuer pechod a chymmodi o Dduw â'r

(m) *Rbut.* 8. 5, 6, 7. (n) *Psal.* 4. 3. 2 *cor.* 6. 14, 17. (o) *Psal* 32. 1, 2. I *cor.* 6. 11. *Tit.* 2. 14. *Tit.* 3. 5, 6, 7. *Heb.* 14. 14. *Mut.* 5, 8.

â'r enaid, (p)pa lawenydd neu heddwch all yr enaid ddisgwyl oddiwrtho ef, natur yr hwn a'i gyfawnder sydd yn ei rwymo i w ffieiddio ac i w gospi?

7. A phrofiad a ddywed i chwi, mor (q) anigionol ydych chwi eich hunain i bob un o'r ddau waith hyn; *I adnewyddu eich Eneidion, neu i w cymmodi hwynt â Duw.* A fydd i natur gnawdol wrthwynebu, a gorchfygu y cnawd, ffieiddio y pechod yr hwn y mae yn dra anwyl yn ei garu? A orchfyga meddwl bydol cnawdol y byd? Gwedi i ddefod neu gwstom wreiddio eich llygredigaethau naturiol chwi, ydyw yn hawdd eu dadwreiddio hwynt? O pa waith mawr a chaled ydyw gwneuthur i bechadur dâll anghredadwy osod ei galon ar fyd arall, a thrysori ei holl obaith yn y Nefoedd, a bwrw ymaith yr holl bethau y mae yn eu gweled, am y Duw hwnnw, a'r gogoniant yr hon ni welodd efe erioed! Ac i galon galed, sydol, gnawdol, syned yn ddoeth ac yn dyner, ac yn sanctaidd, ac yn nefol, ac i ffi-eiddio y pechod yr hwn y mae fwyaf yn ei garu! Ac beth allwn ni wneuthur i fodloni cyflawneder, ac i gymmodi y cyfryw enaid gwrt hryfeler à Duw?

8. Gwedi darfod i natur, a phrofiad eich gwneuthur chwi yn gydnabyddus à'ch pechod, à'ch trueni, a pheth sydd eisieu arnoch chwi; a ddywed ymmhellach i chwi nad ydyw Duw (r) etto

(p) *Rbif.* 5. 1, 2, 3. (q) *I Cor.* 2. 11, 12.
2 Pet. 1. 3. (r) *Act.* 14. 17. ac 17. 24, 27,
28. Rbif. 1. 19, 20. *Rbif.* 2. 4. *Job* 34. 14,
 byd 25. *Mat.* 12. 42, 43.

etto yn gwneuthur â chwi yn ôl eich ha-
eddedigaethau. Mae efe yn rhoddi i chwi sy-
wyd ac amser, a thrugareddau, pan oes id eich
pechodau wedi fforsfettio y rhai hyn oll. Mae
efe yn eich rhwymo chwi i edifarhau a thro-
atto ef. Ac am hynny gan fod profiad yn dy-
wedyd i chwi fod peth gobaith, a bod Duw
wedi cael rhyw ffordd arall i ddangos trug-
edd i blant digofaint, Rheswm a orchymyn
chwi i ymofyn â phawb sydd gyinni wys i'ch
dysgu chwi, pa ffordd o feddyginaeth a ys-
pysodd Duw. Ac megis ac a gellwch chwi yn
fuan ganfod, fod crefydd y cenedloedd, a'r Ma-
hometaniaid, cyn belled oddiwrthi ddangos y
gwir feddyginaeth, fel y maent yn rhan o
clefid ei hun; felly chwi ellwch ddysgu, ddar-
fod i'r person Rhyfeddol (s) yr Arglwydd Jesi
Grifft gymmeryd arno y swydd o fod yn Bryn-
wr ac Achubwr y byd; a darfod iddo ef y
hwn ydyw y gair tragwyddol, a doethineb y
Tâd, yn rhyfeddol ymddangos yn natur dyn
yr hon a gymmerodd efe oddiwrth y forwyd
Mair, a gaed trwy'r yspryd Glan; ac fel y
bydddei ini gael dysgawdwyr wedi ei ddanio
o'r * Nefoedd, i wneuthur y byd yn gydnabyddu
yn ddidwyll, ac yn hawdd ag Ewillys Duw
ac â phethau anweledig bywyd tragwyddol
Pa fodd y dygodd Duw dystiolaeth iw (t) wi-
rionedd ef, trwy wyrthiau aml, agored, ac na
gellir moi gwrthddadleu (u) Pa fodd y darf
iddo ef orchfygu Satan a'r byd, ac a roddes

(s) *Isa* 9.6, 7. ac 53. *Joan* 3. 16, 19. ac 1
1, 3, 4, ac 3. 2. * *Joan* 1. 18. (t) *Acts* 2. 22
Heb. 2. 3, 4. (u) *Mat.* 4. thyd 11.

ni siampl o Gyflawnder perffaith, (w) ac aeth tan watwargerdd a chreulondeb pech-aduriaid, ac a ddioddefodd farwolaeth y groes, megis Aberth tros ein pechoda'u ni i'n cymmodi ni à Duw: Pa fodd yr adgyfodd-odd efe y trydydd dydd, ac a orchfygodd ang-eu, ac a fu syw ddeugein nhiwrnod hwy ar y ddaiar, yn dysgu ei Apostolion, ac yn rhoddi iddynt orchymyn i bregethu'r Efengyl i'r holl fyd, ac yna efe a escynnodd yn gorfforol i'r Nefoedd, tra'r oeddynt hwy yn edrych yn ddy-fal ar ei ol ef. Pa fodd y mae efe yn awr yn y Nefoedd yn Dduw ac yn ddŷn yn un per-son, Dysgawdwr, a Brenin, ac Arch-offeiriad ei Eglwys. Gando ef y bydd rhaid i ni dlysgu ffordd y bywyd, gando ef y bydd rhaid i ni ga-el ein rheoli megis Physygwr eneidiau: rhoddwyd iddo ef bob Awdurdod yn y Nef, ac ar y ddaia-r. Trwy ei Aberth ef, a'i haeddeditaethau, a'i gyfryngdod y bydd rhaid i ni gael Maddeuant a bod yn gymmeradwy gyda'r Tâd; a thrwyddo ef yn unic y bydd rhaid i ni ddyfod at, Dduw. Efe a wnaeth ac a sicrhaoedd Gy-fammod o râs, o'r hwn y mae Bedydd yn sel: Sef [y bydd Dduw ynddo ef yn Dduw i ni ac yn Dâd heddychol, ac y bydd Crist yn jacawd-wr i ni, a'r yspryd Glân yn sandeiddiwr i ni, os nyni yn ddiragrith a gytunwn, bynn yw os yn edif-eiriol ac yn gredâdwy y rhoddwon i fynu ein hunain i Dduw y Tâd, Mâb, a'r yspryd Glân yn yr am-canion neu fwriadau bynn.] Y cysammod hwa yn ei ddull, gweithred ydyw o Roddiad, o Grist

B

a

(w) Pet. 2. 22, 23, 24, 25. Mat. 26. 67
 68. Act. I. Heb. 4. Eph. 1. 22, 23. Rhuf. 5. I,
 3, 9. Heb. 8. 9, 13. ac 8, 6, 7. Heb. 7. 25. I Joan
 3. 10. Joan 5. 22. ac 3. 18, 19. Mat. 25.

14 *Dattodiad y Qwestiwn Mawr,*

a Maddeuant, ac iechydwriaeth i'r holl fydd: os hwy trwy wir ffydd ac edifeirwch a ddychwelant at Dduw. A hon sydd y gyfraith yn ol yr hon y barna efe bawb sydd yn ei chlywed hi yn y diwedd; canys gwnaeth-pwyd ef yn farnwr pawb, ac a gyfyd y meirw oll, ac a gvfawnha ei sainct, ac a'i barna hwynt i lawenydd a gogoniad a idrangi, ac a farn yr anffyddloniaid diedifeiriol ac (x) annuwiol i ddidrange drueni. Yr enaid yn unig a fernir ar farwolaeth, a chorff ac enaid yn yr Adgyfodiad. Yr Efengyl hon a bregethodd yr Apostolion i'r býd; ac fel y byddei yn rymmus i iechydwriaeth dynion, yr yspryd Glân (y) yn gyntaf a roidwyd i ysprydoliaethu ei phregethwyr hi, a'i nerthu hwynt i lesaru mewn amryw ieithoedd, ac i gyttuno yn ddidwyll yn un, ac i weithio llawer o wyrthiau mawrion, ac amlwg i brofi eu gair i'r rhai y pregethasant hwy. A thrwy 'r moddion hyn hwy a blaenasant yr Eglwys, (z) yr hon y bydd rhaid i weinidogion arferol amlhau, a'i dysgu, a'i bugeilio, hyd ddiwedd y býd. Hyd oni chesglir i mewn yr holl Eetholedigion. A'r un (a) yspryd Glân a gynmerodd arno hynny, megis ei waith ef, i fyned gyda yr Efengyl hon, a thrwyddi i droi eneidiau dynion, eu goleuo, a'u sancteiddio hwynt, a thrwy (b) Adenedigaeth ddirgel i adnewyddu eu natur hwynt, a'i dwyn hwynt i'r gwybodaeth hwnnw, ac ufydd-dod, a chariad o Dduw, yr hyn ydyw y sancteiddrwydd cyntaf, i'r hon i'n creuwyd ni, ac

(x) *Luke 16.* (y) *Acts 2.* (z) *Joan 17. 29.*
Mat. 28. 19. *Acts 14. 23.* *Act. 20.* *Act. 26. 17,*
18. (a) *Rbuf. 8. 9.* *Tit. 3. 5, 3.* *Joan 13. 5, 6.*

ac oddiwrth'r hon y syrthiasom ni. Ac fel hyn trwy Jachawdwr, a Sancteiddiwr y bydd rhaid cymmodi, ac adnewyddu pawb a synnant gael eu gogoneddu gyda Duw yn y Nefoedd. Hyn oll ellwch chwi ddysgu oddiwrth yr scrythrau sanctaidd y rhai a (c) scrifenwyd gan ysprydoli-aeth yr yspryd Glân, ac a'u felwyd trwy Ll-aws o (d) wyrthiau eglur, ac yn cynnwys gwir lun ac argraff Duw, ac a'u Derbyniwyd a chadwyd gan yr Eglwys, megis sicr ymadroddion Duw, ac wedi eu bendithio ganddo o genhedaeth i genhedaeth, ymmhob oes i sancteiddio llawer o eneidiau.

9. Gwedi i chwi ddeall hyn i gyd, mae yn amser i Chwi i (e) edrych gartref, a deall yn awr pa gyffwr y mae eich Enedian chwi ynddo. Gwnaethpwyd dyn ar y cyntaf yn sanctaidd, ac yn hâppus, chwi a wŷddoch: eich bod chwi a phob dŷn wedi syrthio oddiwrth Dduw, a sancteiddiwrwydd, a dedwyddwch, at hunan, a peched a thrueni, chwi a wŷddoch: eich bod chwi cymmhelled welli eich prynu gan Christ chwi a wŷddoch: megis ac y cynnygir i chwi Gysammôd o faddeuant ac iechydwriaeth, a Christ a thrugaredd a gynnygir i'ch clewis chwi. Ond a y lych chwi yn ffyddloniaid gwir edifeiriol, ac wedi eich adnewyddu gan yr yspryd Glân, ac felly wedi eich uno â Christ? Hwn ydysw'r Questiwn etto heb ei ddartod, hwn ydysw'r gwaith sydd etto iw wneuthur, heb pa un nid oes dim iechydwriaeth, ac os marw a wnei di cyn gwneuthur hynny, gwaeiti fod o honot ti eriod yn ddŷn. Oddieithr i ddŷn

gael ei (f) adgenedlu gan yr yspryd, a'i droi, a'i wneuthur yn greadur Newydd, ac o gnawdol ei wneuthur yn ysprydol, ac o ddaiarol ei wneuthur yn Nefol, ac o hunan a phechadurus ei wneuthur yn sanctaidd ac yn uffdd i Dduw, nis gall efe syth fod yn gadwedig, mwy nac a gall y cythrael ei hun fod yn gadwedig. Ac os ydyw hyn felly (megis nad oes dim sicc-rach) yr wyf yn ceisio gennit yn awr, yr hwn wyt yn dárilen y geiriau 'yn, megis ac yr wyt ti yn ystyried dy ieckydwriaeth, megis ac y mynnit ti ddiangr rhag tân usfern, a sefyll yn gyffurus ger bron Grist, a'i Angelion ef yn y di-wedd, ar iti yn ddisfrifol ystyried onid ydyw Rheswm yn Gorchymyn i ti brosi dy gyflwr; a wyt ti fel hyn (g) wedi dy adnewyddu gan yspryd Crist a'i nad wyt? Ac i (h) alw am gymmorth gan y rhai hynny a fedrant dy gynghori di, a chanlyn ar chwilio hyd oni ddelach i wybod dy gyflwr. Ac os yw dy enaid ti yn ddiethr i'r gorchwyl hwn o sanct-eiddiad, onid ydyw Rheswm yn gorchymyn iti heb oedi fyned at Crist, a chresu ei yspryd ef, a bwrw ymmaithy dy bechodau, a rhoddi dy hunan yn hollawl i'th Dduw, dy jachawdwr a'th sancteiddiwr, a myned iw Gyfammod ef, gyda llwyr ymroad byth nad ymmadewi ag efe, i ymwdau a thydi dy hun, ac ewyllisiau y cnawd, ac a'r byd twyllodrus darfod-eidio hwn, a rhoi allan dy holl obaith ar y Netoedd, ac a'r frys beth bynnag a gust iti siccrau

(f) *Ioan. 3. 5.* 2 *Cor. 5. 17.* *Rbuf. 8. 7, 9.*
Phil. 3. 18, 20. (g) *Act. 16. 14.* (h) *Act.*
2. 37. ac *16. 30.* ac *II. 23.* 2 *Cor. 6. 1, 2.*
Dat. 2. 7.

Pa fodd i fod yn Gadwedig. ¶

siccrhau y dedwyddwch sydd heb ddiwedd iddo? Ac a lefes i di wrthod hyn, pan ydyw Duw a chydwybod yn ei orchymmyn? Ac ymmhellach yr wyf yn eich cynggori chwi.

10. Deellwch *pa fodd y mae Satan yn rhwystru eneidiau rhag eu sancteiddio*; fel y bo i chwi wybod *pa gymaint i sefyll yn erbyn ei ddichellion ef.* Rhai y mae efe yn eu twyllo trwy (i) adrodd iddynt yn ddrygionus, nad yw sancteiddrwydd ddim ond drychiolaeth ffanci, neu Ragrith! (a phed fae Duw a marwolaeth, a Nefoedd ac usfern yn ffancies, hyn ellid ei gredu.) Rhai y mae efe yn eu llygru trwy allu chwant cnawdol, fel nad ad eu pechodau hwynt iw Rheswm lesaru. Rhai y mae efe yn eu cadw mewn llwyr anwybodaeth, trwy ddygiad i fynu drwg rhieni anwybodus, ac esgeuluстра (k) dysg-awdwyr annuwiol, y rhai idynt yn lladd yr Eneidiau: Rhai **y** mae efe yn eu twyllo à gobeithion bydol, ac yn Cadw eu meddyli-
au felly wedi, eu cymineryd i fynu à pheth-
au bydol, fel nas gall matterrion Tragwydd-
oldeb gael ond rhai meddyllau rhÿdd a dir-
ym, neu cynddrwg a bod heb yr un: Rhai a
rwystir gan (l) gymdeithas neu gwmpeini drwg,
y rhai a wawdiant fuchedd sanctaidd, ac a'u
denant i droi at ddifyrrwch ofer, ac rhai ydynt
felly wedieu (m) caledu yn eu pechiod, megis ac
y maent agos wedi diddarboli, ac nid ydynt
nac yn ofni digofaint Duw, nac yn gofalu am
eu Hiechydwriaeth, eithr gwrando y pethau
hyn y maent megis dynlon yn cysgu, ac nid

(i) *Act 24. 14. ac 28. 22. ac 24. 5, 6.* (k) *Mal. 2. 7, 9. Hes. 4. 9.* (l) *Dihar. 13. 20.* (m) *Ephes. 4. 18, 19.*

oes dim au deffry hwynt: Rhai a ddigalonnit à thŷb fod Duwioldeb yn fywyd mor (n) anhyfryd, prudd, ac athrist, fel yn hytrach na'i goddef hi, hwy a beryglant eu heneidiau, deued a ddelo ar hynny, (megis ped fae yn fywyd anhyfryd garu Duw, a gobeithio am lawenydd didrang, ac yn fywyd hyfryd garu'r byd a phechod, a byw o fewn cam at uffern.) Rhai wedi eu hargyoeddi, ydynt yn (o) oedi eu hedifeirwch, ac yn tybied i bod yn ddigon buan ar 8l hyn; ac maent yn pwrsafu ac yn addo, hyd onid elo yn rhyhwyr, a darsod bywyd, ac amser, a gobaith: a rhai pan ydynt yn gweled fod sancteiddrwydd yn anghenrheidiol a (p) siommir gan ryw dŷb marw, neu henwau, neu ymddangosiad, a llun sancteiddrwydd, naill ai o herwydd eu bod yn dal rhyw Opinion neu dŷb manwl, neu o herwydd eu bod yn cysylltu à phobl grefyddol, neu o herwydd eu bod o'r rhai hynny y maent hwy yn tybied ydyw'r wir Eglwys, neu o herwydd eu bod hwy wedi eu bedyddio à dwfr, ac yn cadw rhannau oddiellan o addoliad; ac nid hwyrach o herwydd eu bod yn offrymmu i Dduw lawer iawn o wasanaeth gwefus a defod difywyd yn ol aithrawiaethau dynion y rhai ni aroglasant erioed o Enaid sanctaidd. Fal hyn Marweidd-dra, Bydoldeb, Rhagirth, a bod yn anianol sydd yn rhwystro Myrddiwanu rhag sancteiddrwydd, ac jechydwriaeth.

II. Os

(n) Mal. 1. 13. (o) Mat. 25. 3, 8, 12. ac 24. 43, 44. (p) Joan 8. 39. 42, 44. Rbuf. 3. 1, 2. Gal. 4. 9. Mat. 13. 19, 20, 21, 22, ac 15. 2, 3; 6. Gal. 1. 1.

11. Os mynnit ti fyth fod yn gadwedig na orthrymma Rheswm trwy ddilyn *Chwantaus ac ewyllysan'r cnawd*. Eithr weithiau (q) ymneilldua i ystyried yn ddifrifol, ac mewn sobrwydd. Rheswm gwascaredig cysgadur nid yw defnyddiol. Mae gan Dduw a chydwybod lawer iawn iw ddywedyd wrth iti, yr hyn mewn lliaws o gwmpeini a gofalon bydol nid wyt i gymmwys i glywed: cyflwr (r) galarus ydyw bod dyn yr hwn sydd ganddo *Dduw, a Christ, ac Enaid, a Nefoedd, ac usfern* i feddwl am danynt, yn anfodlon i ganiattau iddynt yr un ond meddyliau rhedegog. Ac na ddyru unwaith yn yr wythnos un awr iw (s) hystyried hwynt yn ddifrifol yn debyg i dyn! Diau nid oes gennyr bethau mwy iw hystyried. Bydded iti gan hynny ymroi weithiau i dreulio hanner awr, y ystyried yn ddifrifol dy gyflwr tragwyddol.

12. Edrych (t) ar y byd hwn a'i holl hyfrydwch, megis dŷn a rheswm ganclo, yr hwn sydd yn rhagweled y diwedd, ac nid megis anifail yr hwn sydd yn byw yn anianol, ar yr hyn a fo ger bron ei lygaid ef, ydyw yn rhaid i mi ddywedyd iti, o ddŷn, y bydd rhaid i ti farw? Celaneddau a llwch sydd yn dy ddysgu di i weled diwedd gogoniant daiarol, a holl hyfrydwch y cnawd. A'i peth ammheus ydyw na dderfydd dy gnawd ti ar fylder? Ac etto a barattoi di trosto o flaen dy Enaid? Pa ffarwel galarus a fydd rhaid iti ar fyr amser gymmeryd

(q) *Psal. 4: 3. Hig. 1. 5. Deut. 32. 7, 29.*

(r) *Isa. 1. 3. (s) Job 24. 27. Jer. 23. 20.*

Psal. 119. 59. (t) 2 Cor. 4. 18. Deut. 32. 29.

I Joan 2. 17. 1 Cor. 7. 31. Luc 12. 19, 20. Joan

14. 1, 2. 1 Thes. 5. 23.

